CYMDEITHAS TAI CLWYD

RHENT A THÂL GWASANAETH

Sicrhau mai eich cyfrifoldeb chi yw talu'r rhent a'r tâl gwasanaeth a godir ar eich eiddo, fel rhan o'ch cytundeb tenantiaeth gyda Chymdeithas Tai Clwyd.

I'ch cynorthwyo, byddwn yn:-

Cyn gosod yr eiddo:

- Dweud wrthych faint yw'r rhent a'r tâl gwasanaeth sydd angen i chi dalu a chyfrifo a ydych yn gymwys i unrhyw fudd-dal tai. Fe all hyn eich cynorthwyo i benderfynu a fedrwch chi fforddio derbyn y denantiaeth.
- Trafod eich opsiynau parthed y dulliau a'r amlder o dalu eich rhent a'ch tâl gwasanaeth cyn y mae'r taliad cyntaf yn ddyledus.
- Gofyn i chi am eich manylion banc os ydych yn dewis talu trwy ddebyd uniongyrchol.
- Darparu copi i chi o lawlyfr "Fy Nghartref" sy'n cynnig cyngor ar sut i wneud y defnydd gorau o'ch arian.

Wrth osod yr eiddo (ac fel bo angen wedyn):

- Anelu i ddarparu cerdyn talu allpay i chi dalu eich rhent o fewn 5 diwrnod gwaith o ddechrau eich tenantiaeth.
- Pan yn berthnasol, cymryd y ffurflen budd-dal tai gennych os yw wedi cael ei gwblhau'n llawn ynghyd â'r dogfennau perthnasol e.e. prawf incwm, Yswiriant Cenedlaethol a.y.b. a'i basio ymlaen i'w awdurdod lleol.
- Cynnwys llyfryn gwybodaeth 'Talu eich Rhent' yn eich pecyn gosod.

Fel tenant:

- Darparu amryw o ddulliau i chi dalu eich rhent yn cynnwys debyd uniongyrchol, cerdyn talu allpay neu trwy'r post/dros y ffôn gyda'ch cerdyn debyd.
- Eich galluogi i ddewis amlder taliadau (e.e wythnosol, pythefnosol neu fisol), cyn belled â bod taliadau yn cael eu gwneud ymlaen llaw.
- Darparu datganiadau rhent chwarterol i chi.
- Eich hysbysu yn ysgrifenedig o leiaf 1 mis calendr cyn cynyddu/gostwng unrhyw daliadau rhent/tâl gwasanaeth. Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn adolygu rhenti anghenion cyffredin bob mis Hydref, rhenti tai â chefnogaeth ym mis Ebrill, rhenti rhanberchnogaeth ar ben-blwydd y les, ac ar gyfer tenantiaid sicr, rydym yn adolygu'r rhent bob 2 flynedd.
- Ymweld â chi yn eich cartref i drafod eich cyfrif rhent pan mewn dyled o 3 wythnos neu fwy.
- Cwblhau asesiadau ariannol gyda chi er mwyn darganfod eich hawl i fudd-daliadau eraill – h.y. uchafu incwm.
- Cysylltu â chi yn rheolaidd os yw eich cyfrif rhent mewn dyled, ac yn cynnig cefnogaeth i chi ddelio ag unrhyw faterion ariannol.
- Rhoi manylion cyswllt asiantaethau eraill a all eich cynorthwyo chi gydag unrhyw faterion ariannol, yn cynnwys dyled. Os yw dyledion yn ddifrifol, gallwn gynnig eich cyfeirio at asiantaeth dyled rhent (e.e. Cyngor ar Bopeth) a all ddarparu gwasanaeth cwnsela dyledion.
- Eich hysbysu yn ysgrifenedig cyn cymryd unrhyw gamau, os nad ydych yn talu eich rhent neu eich tâl gwasanaeth.
- Cymryd camau cyfreithiol fel y cam olaf, ac yn y pen draw eich troi allan o'ch cartref os nad ydych yn cadw apwyntiadau i drafod eich dyledion neu ddim yn gwneud unrhyw daliadau rhent yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt.
- Selio ein tâl gwasanaeth ar union gostau, ac adlewyrchu unrhyw warged/diffyg yng nghostau'r dyfodol.

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cysylltwch â ni.

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3BW

☎0345 230 3140
0345 230 3145
www.taiclwyd.com
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8, Gweithdai Penllyn
Heol Aran
Y Bala, Gwynedd
LL23 7SP